

Cyngor Dinas Casnewydd

Adroddiad Gwrthwynebu

Cynnig i gynyddu capasiti cyffredinol Ysgol Basaleg o 1,747 i 2,050 o fis Medi 2023



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ysgolion yr 21ain Ganrif
21st Century Schools



NEWPORT
CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS
CASNEWYDD

Diben

Cyhoeddir yr adroddiad hwn yn unol â gofynion Adran 42 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, Tachwedd 2018 Dyma grynodedd o'r gwrthwynebiadau statudol ac ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau hynny. Rhaid rhoi ystyriaeth briodol i'r gwrthwynebiadau a'r ymatebion a nodir yn yr adroddiad hwn pan fydd y Cyngor yn penderfynu ar y cynnig.

Cyhoeddi Hysbysiad Statudol Cyfreithiol

Yn dilyn y cyfnod Ymgynghori Ffurfiol a chyhoeddi adroddiad ymgynghori, penderfynodd yr Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau fwrw ymlaen i gyhoeddi'r cynnig i gynyddu capasiti cyffredinol Ysgol Basaleg o 1,747 i 2,050 o fis Medi 2023, drwy hysbysiad statudol am 28 diwrnod o 3 Mawrth 2021 i 1 Ebrill 2021.

Mae Deddf 2013 yn gofyn bod cyfle i unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu cynnig trefniadaeth ysgolion yn cael cyfle i wneud hynny. Derbyniwyd dau wrthwynebiad ffurfiol: un gan breswlydd lleol ac un arall gan Bwyllgor preswylwyr Court Crescent a Forge Lane. Codwyd pryderon hefyd gan breswlydd lleol arall a chan Gyngor Cymuned y Graig. Er nad yw'r pryderon hyn wedi'u cyflwyno'n benodol fel gwrthwynebiadau ffurfiol i'r cynnig, fe'u cynhwysir yn yr adroddiad hwn am resymau cyflawnrwydd a thryloywder.

Mae'r tabl sy'n dilyn yn crynhoi pob un o'r pwyntiau gwrthwynebu a gyflwynwyd gan bob un o wrthwynebwyr y cynnig. Mae dwy golofn o ymatebion: mae un golofn yn cyfeirio at sut yr oedd gwybodaeth ar gael yn flaenorol yn ystod yr ymgynghoriad yn y pecyn ymgynghori cychwynol a'r adroddiad ymgynghori dilynol. Yr ail golofn o ymatebion yw ymateb atodol gan Gyngor Dinas Casnewydd i egluro'r sefyllfa ymhellach er mwyn ateb pob un o'r pwyntiau gwrthwynebu.

Pwynt gwrthwynebu Rhif.	Nifer yn codi'r mater	Pwynt Gwrthwynebu	Ymateb a ddarparwyd yn flaenorol yn ystod yr ymgynghoriad ffurfiol neu'r adroddiad ymgynghori	Ymateb Atodol CDC yn dilyn y gwrthwynebiad ffurfiol
1	3	<p>Effaith traffig ar yr amgylchedd</p> <p>Mae'r gyndogaeth yn cael ei chloi'n llwyr yn ystod amseroedd yr ysgol.</p> <p>Mae rhieni a bysiau ysgol yn rhwystro mynediad i Court Crescent yn barhaus ac ar adegau pan fo bysiau'n ddi-symud ar yr A467, sy'n berygl mawr i draffig.</p> <p>Dadansoddwyd lefelau llygredd yn yr ardal o flaen yr ysgol a ac ar Caerphilly Raod ac maent lawer yn uwch na'r lefelau a ystyrir yn ddiogel. Mae hyn yn effeithio ar ddisgyblion bob dydd ac maent wedi bod yn anadlu'r lefelau hyn am saith mlynedd o'u haddysg.</p>	<p>Cynigir y capasiti ychwanegol er mwyn rhoi lleoedd i ddisgyblion sy'n byw yn y datblygiadau tai newydd ym Mharc y Jiwbil a Chlwb Golf Parc Tredegar. Mae'r ddau ddatblygiad o fewn taith gerdded hawdd i'r ysgol, ac mae'r seilwaith priffyrdd ar gyfer y datblygiadau hyn eisoes wedi'i sefydlu. Mae Tîm Priffyrdd y Cyngor wedi cydnabod problemau sy'n ymwneud â'r goleuadau traffig o amgylch cylchfan Basaleg ac mae effaith debygol y cynnydd yn nifer y disgyblion a'r staff cysylltiedig yn cael ei hasesu a bydd yn cael sylw yn y broses gwneud cais cynllunio i'w hystyried fel y bo'n briodol. Mae'r cynnig yn cynnwys mwy o ddarpariaeth parcio o flaen y safle (ardal Forge) a gwell manau aros a throi i fysiau ar dir yr ysgol. Yn gyffredinol, bydd y cynnig yn darparu 68 o leoedd parcio ychwanegol, 57 ohonynt ger y brif fynedfa.</p>	<p>Comisiynwyd ail arolwg traffig ac asesiad effaith a bydd canlyniadau hyn yn cael eu cyflwyno gyda'r cais cynllunio. Ymgynghorir â Swyddogion Traffig ac Amgylcheddol fel ymgynghoreion statudol yn rhan o'r broses gynllunio, a bydd yn ofynnol i'r Cyngor gydymffurfio ag unrhyw amodau y gwelant yn dda i'w gosod ar y datblygiad arfaethedig.</p> <p>Mae dros 98% o'r ddau brif ddatblygiad tai yn yr ardal wedi ei gwblhau â llai nag 20 o dai yn weddill i'w hadeiladu. Mae hyn yn dangos bod y prif effaith traffig ar yr ardal eisoes wedi digwydd.</p>

2	2	<p>Dalgylch</p> <p>Dylid lleihau'r dalgylch ar gyfer Ysgol Basaleg a dylai myfyrwyr o Maerun fynd i Ysgol John Frost.</p> <p>Nid yw'n afresymol ehangu Ysgol John Frost, mae gan y tiroedd ddigon o le i ddefnyddio tri adeilad symudol o Ysgol Basaleg.</p>	<p>Nid yw Ysgol John Frost yn nes at Maerun nag yw Ysgol Basaleg. Mae Ysgol John Frost hefyd yn llawn gyda disgyblion o fewn ei chlwstwr ei hun o ysgolion, ac ni ellir ei hehangu ymhellach ar ei safle presennol.</p>	<p>Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi'i gwneud yn glir na fydd unrhyw gynnydd pellach yn nifer y disgyblion sy'n mynychu Ysgol John Frost / Ysgol Gyfun Gwent Is Coed yn bosibl oherwydd pryderon ynghylch perygl llifogydd.</p> <p>Mae'r Cyngor o'r farn bod ehangu Ysgol Basaleg yn ymateb priodol i'r galw lleol, o fewn y dalgylch am leoedd mewn ysgol uwchradd.</p> <p>Gall newidiadau i ddalgylchoedd darfu ac arwain at frodyr a chwirydd yn gorfod mynychu ysgolion gwahanol – rhywbeth y mae'r Cyngor yn awyddus i'w osgoi lle bynnag y bo modd.</p>
3	2	<p>Maint a chyrhaeddiad ysgol</p> <p>Bydd yr ysgol yn dod yn 'ysgol oruwch' ac yn un o'r ysgolion mwyaf yng Nghymru. Mae hyn yn debygol o gael effaith andwyol ar ymddygiad, lles disgyblion a chyrhaeddiad.</p> <p>Nid oes sicrwydd yn y dyfodol y bydd datblygiadau preswyl newydd.</p>	<p>Mae Ysgol Basaleg yn ysgol lwyddiannus a chynhwysol. Rydym yn hyderus y bydd y tîm arwain yn gallu sicrhau bod yr un cyfleoedd a lefel y cymorth yn cael eu darparu i bob disgybl. Mae'r ymateb i'r ymgynghoriad a gafwyd gan Estyn yn cefnogi'r farn hon.</p> <p>Y cynnig hwn yw ehangu'r ysgol i 2,050 ac nid oes bwriad i fynd y tu hwnt i'r nifer hwn. Mae'r prif ddatblygiadau tai yn y dalgylch yn gyflawn ac wedi'u meddiannu'n llawn ar y cyfan ac mae'r effaith</p>	<p>Nodwyd yn ei ymateb i'r ymgynghoriad na chododd Estyn unrhyw bryderon o'r fath ynghylch capasiti arfaethedig yr ysgol a daeth i'r casgliad y bydd y cynnig o leiaf yn cynnal y ddarpariaeth addysg ar gyfer disgyblion yn nalgylch Ysgol Basaleg. Daeth Estyn i'r casgliad hefyd fod y cynnig yn debygol o gyflawni ei nod o ddarparu digon o gapasiti i ateb y galw i'r dyfodol.</p> <p>Mae ein hasesiad o'r safle yn awgrymu mai'r capasiti arfaethedig</p>

			<p>ddisgwylidig ar niferoedd disgyblion wedi'i hystyried yn llawn.</p>	<p>o 2,050 yw'r nifer gorau posibl o ddisgyblion i'w lletya yno. Mae ein rhagamcanion poblogaeth disgyblion yn dangos poblogaeth ysgolion 11-18 o 1,890 yn 2025 fel yr amlinellir yn y deunydd ymgynghori.</p> <p>Ni ragwelir y bydd unrhyw gynnig yn y dyfodol yn cael ei osod ger bron yn y dyfodol i gynyddu poblogaeth disgyblion yr ysgol y tu hwnt i 2,050.</p>
4	2	<p>Darpariaeth Uwchradd Amgen yng Nghyngor Dinas Casnewydd</p> <p>Byddai adeiladu ysgol 1000 o leoedd newydd yn Nhŷ-du o fudd i bob disgybl yn ardaloedd Parc Jiwbilî, High Cross a Mount Pleasant heb fod angen darparu gwasanaeth bws a byddai'n negyddu'r angen i rieni ddefnyddio eu ceir.</p> <p>Mae'r Cyngor wedi datgan nad yw'r cyllid ganddynt i gefnogi ysgol newydd, ond mae dogfen a ddefnyddir gan Gyngorau lleol yn Lloegr yn dangos y byddai cost ysgol newydd o dan £20m, gan adael £8m i adnewyddu Ysgol Basaleg a hefyd darparu</p>	<p>Nid oes safle ar gael i ysgol uwchradd arall, ac ni fyddai hyn ychwaith yn mynd i'r afael â'r angen i adnewyddu yr adeiladau gwael yn Ysgol Basaleg. Hefyd, byddai sefydlu ysgol newydd yn arwain at oblygiadau sylweddol o ran cyllid refeniw a fyddai'n cael effaith andwyol ar bob ysgol uwchradd yng Nghasnewydd.</p>	<p>Nid oes safle ar gael yn yr ardal a fyddai'n addas, a barnwyd bod Ysgol Basaleg yn darparu safonau da o addysg uwchradd a gofal, cymorth ac arweiniad rhagorol. Mae'r ymatebydd yn dyfynnu costau adeiladu rhesymol ond nid yw'n ystyried caffael tir, y gellid disgwyl iddo wthio'r gost hyd at tua £30m. Yn ogystal, nid yw'r £8m a awgrymir yn ddigonol i godi adeiladau newydd yn lle'r rhai gwael yn Ysgol Bassaleg. Yr amcangyfrifon cost diweddaraf i wneud y gwaith heb ehangu'r ysgol yw tua £16m.</p>

		ystafelloedd dosbarth ychwanegol yn Ysgol John Frost.		
5	3	<p>Cydweithio â Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili</p> <p>Dylai Cyngor Casnewydd ystyried cydweithio â Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar ddefnydd trawsffiniol ar Ysgol Gyfun Rhisga, sydd wedi'i thandanystrifio ac sy'n agosach nag Ysgol Bassaleg ar gyfer rhai disgyblion.</p>	<p>Mae'r ddogfen ymgynghori yn manylu ar bum opsiwn amgen sydd wedi'u hystyried. Mae'r rhain yn cynnwys adnewyddu cyfleusterau sy'n bodoli eisoes yn unig, ehangu safle ysgol arall a diwygio dalgylchoedd presennol.</p>	<p>Mae'r Cyngor o'r farn mai ehangu Ysgol Basaleg yw'r ymateb priodol i'r galw lleol, yn y dalgylch am leoedd mewn ysgolion uwchradd.</p> <p>Byddai unrhyw gydweithio awgrymedig gydag Ysgol Gyfun Rhisga yn golygu newid o ran llywodraethiant a byddai angen cynnig a gefnogir gan y ddau Awdurdod Lleol.</p> <p>Byddai adlinio neu newid i ddalgylchoedd hefyd yn gofyn am gynnig a gefnogir gan y ddau Awdurdod Lleol.</p> <p>Nid yw'n glir a fyddai'r opsiwn hwn yn cynnal y deilliannau addysgol o ansawdd uchel a ddarperir gan y system bresennol, neu y byddai er lles gorau disgyblion a theuluoedd a allai weld brodyr a chwirydd yn cael eu gwahanu.</p> <p>I'r gwrthwyneb, mae Estyn wedi dod i'r casgliad y bydd y bwriad i ehangu Ysgol Bassaleg o leiaf yn cynnal safonau presennol y ddarpariaeth addysg.</p>

6	3	<p>Ad-drefnu'r ddarpariaeth Ôl-16</p> <p>Byddai hyn yn negyddu'r angen i gynyddu poblogaeth Ysgol Basaleg, a gallai'r ddarpariaeth arfaethedig yng nghanol Casnewydd gynnwys pob disgybl Ôl-16.</p> <p>Mae hyn yn codi'r cwestiwn ynghylch dyfodol hirdymor y dull presennol o gynnal darpariaeth Ôl-16 hyfyw yn Ysgol Basaleg.</p> <p>Nid yw'r cynnig presennol yn rhan o gynllun strategol hirdymor ar gyfer darpariaeth addysg uwchradd ac Ôl-16 yng Nghasnewydd.</p>	<p>Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi bod yn glir yn ei ymrwymiad i fodel 3-18 o ddarparu addysg. Er y gallai newid yr ystod oedran greu capasiti ychwanegol yn ein hysgolion uwchradd ar gyfer plant o oedran ysgol statudol, byddai'n rhaid trefnu darpariaeth Ôl-16 amgen o hyd a byddai'r broses hon yn cymryd sawl blwyddyn i'w chytuno a'i gweithredu. Yn y cyfamser mae angen darparu lleoedd ysgol uwchradd ychwanegol yn ardal Basaleg.</p>	<p>Mae'r myfyrwyr Ôl-16 yn Ysgol Bassaleg yn aelodau gwerthfawr o gymuned yr ysgol, sy'n cynrychioli potensial a llwyddiant disgyblion yr ysgol ac yn ysbrydoliaeth i'r dysgwyr iau. Mae coleg arfaethedig canol y ddinas yn ddatblygiad gan Goleg Gwent sydd â'r bwriad o ail-ddarparu cyfleusterau galwedigaethol a gynigir ar hyn o bryd mewn lleoliadau eraill yn yr ardal. Ein dealltwriaeth ni yw nad oes bwriad i letya disgyblion ychwanegol a fyddai fel arfer yn symud ymlaen i ddarpariaeth Ôl-16 mewn ysgol yng Nghasnewydd, ac nid oes ffocws ychwaith ar gynnig Safon Uwch gan Goleg Gwent ar y safle hwn. Rhan Cyngor Dinas Casnewydd yn y cynllun hwn yw gadael Canolfan Casnewydd er mwyn hwyluso datblygiad newydd y coleg, ac adeiladu Canolfan Hamdden a Lles newydd ar Lan yr Afon. Nid yw'r Cyngor yn cyfrannu at ariannu'r cyfleuster coleg yng nghanol y ddinas.</p>
7	2	<p>Pryderon ynghylch y lleiniau 3G arfaethedig Llygredd golau a sŵn ac effaith amgylcheddol/iechyd defnyddio rwyber a phlastigau</p>	<p>Byddai defnydd cymunedol o'r cyfleusterau hyn yn digwydd y tu allan i oriau ysgol pan fydd safle'r ysgol yn dawel. Ni ddisgwylir i effaith y defnydd hwn fod yn</p>	<p>Mae effaith bosibl llygredd golau a sŵn o'r lleiniau arfaethedig ar breswylfeydd lleol yn cael ei hasesu'n llawn ac ystyrir opsiynau i leihau'r effaith hon. Mae rheoliadau sy'n pennu terfynau</p>

			<p>sylweddol a bydd y cyfleuster o fudd i'r gymuned.</p>	<p>derbyniol, a bydd Swyddogion Amgylcheddol yn ystyried derbynioldeb y cynnig fel ymgynghoreion statudol i'r cais cynllunio.</p> <p>Mae'r dewis ar gyfer lleiniau 3G yn ymwneud â'r ffaith nad ydynt yn mynd yn ddwrlawn nac yn gorslyd, ac felly gellir eu defnyddio drwy gydol y flwyddyn. O'r herwydd maent yn gyfleuster llawer gwell i'r ysgol ac yn cyfrannu'n sylweddol at ddigonolrwydd cyfleusterau chwaraeon ar y safle. Cyngorir y Cyngor bod Cymdeithas Bêl-droed Cymru wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw dystiolaeth i gefnogi honiadau bod caeau 3G yn peri unrhyw fgythiad i'r amgylchedd nac i iechyd y bobl sy'n eu defnyddio.</p>
8	1	<p>Anallu i gyflawni'r prosiect erbyn Medi 2023</p> <p>O Gais Rhyddid Gwybodaeth diweddar, mae'r prosiect ar hyn o bryd yn rhedeg 4 mis y tu ôl i'r amserlen wreiddiol a ragwelwyd.</p>	<p>Mae hwn yn bwynt newydd nad eir i'r afael ag ef ynghynt drwy'r ymgynghoriad ffurfiol na'r adroddiad ymgynghori.</p>	<p>Mae'r dyddiad cyflawni targed yn heriol, ond mae ein rhaglen ddiwygiedig yn dangos y gellir cyflawni'r adeilad newydd o hyd ar gyfer mis Medi 2023. Fodd bynnag, mae mecanweithiau sefydledig ar gyfer gweithredu cynnig yn hwyrach na'r bwriad cychwynnol, os oes angen, ac nid ystyrir bod hyn yn rheswm da dros beidio â bwrw ymlaen â'r cynnig.</p>

9	1	<p>Gwaethygir y problemau gwrthgymdeithasol presennol sy'n ymwneud â'r ysgol</p> <p>Sŵn gan ddisgyblion, sbwriel, gweithgareddau y tu allan i oriau ar gyfer teithiau ysgol a phroblemau parcio.</p>	<p>Mater i dîm arwain yr ysgol yw materion ymddygiad disgyblion, gan gynnwys unrhyw bryderon ynghylch taflu sbwriel, ac felly dylid rhoi gwybod yn uniongyrchol i'r ysgol am unrhyw bryderon.</p>	<p>Mae tîm arweinyddiaeth Ysgol Basaleg wedi sicrhau'r Cyngor eu bod wedi ymrwymo i sicrhau bod digon o oruchwyliaeth amser egwyl yn cael ei darparu ar draws safle'r ysgol. Mae'r Cyngor Ysgol, y Pwyllgor Eco a'r Uwch Dîm Arwain yn ystyried pryderon ynghylch sbwriel a phryderon amgylcheddol yn rheolaidd. Mae archwiliad diweddar a gynhaliwyd gan yr ysgol wedi cadarnhau mai dim ond un daith ysgol flynyddol sy'n gofyn am fysiau i godi a gollwng yn gynnar/hwyr. Bydd datblygiad y safle arfaethedig yn helpu i leddfu rhai o'r pryderon parcio lleol.</p>
10	1	<p>Dadansoddiad Opsiynau sy'n annigonol a gwan</p> <p>Nid yw'r Cyngor wedi ystyried cwmpas digon eang o opsiynau. Nid yw'r Cyngor wedi ystyried yn ddigonol yr opsiwn amgen o uno ag Ysgol Gyfun Rhisga. Nid yw'r Cyngor wedi ystyried yn ddigonol yr opsiwn amgen o ysgol uwchradd newydd ar gyfer 1000-1200 o ddisgyblion.</p>	<p>Mae'r ddogfen ymgynghori yn manylu ar bum opsiwn amgen sydd wedi'u hystyried. Mae'r rhain yn cynnwys adnewyddu cyfleusterau sy'n bodoli eisoes yn unig, ehangu safle ysgol arall a diwygio dalgylchoedd presennol. Nid yw'r Cyngor yn berchen ar ddigon o dir, nac yn dal digon o gronfeydd cyfalaf wrth gefn, i adeiladu ysgol uwchradd newydd. Cafodd opsiynau eraill eu hystyried a'u diystyru yn ystod cam yr Achos Amlinellol Strategol, gan gynnwys bod sefydliad trydydd parti yn</p>	<p>Yn ogystal â'r pum opsiwn amgen a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori, cynhaliodd y cyngor arfarniad opsiynau rhestr hir lawn – i restr fer fel rhan o gyflwyniad achos busnes yr Achos Amlinellol Strategol i Lywodraeth Cymru, gan ddefnyddio fframwaith opsiynau dewisol Llywodraeth Cymru. Crynhoir y broses hon yn yr Achos Amlinellol Strategol ar gyfer y prosiect a gyhoeddir ar wefan y Cyngor ac a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2020.</p>

			darparu darpariaeth Ôl-16 a chwaraeon oddi ar y safle. Mae'r Achos Amlinellol Strategol wedi cael ei ystyried a'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.	
--	--	--	--	--

Argymhellion

Argymhellir y dylid symud y cynnig hwn ymlaen i'r cam penderfynu terfynol. Gan fod gwrthwynebiadau wedi dod i law yn ystod y cam cynnig statudol, fodd bynnag, bydd angen i Gabinet y Cyngor wneud y penderfyniad hwn gan weithredu fel y Panel Penderfynu Lleol. Mae amserlen cyfarfodydd y Cabinet y cytunwyd arni'n fewnol yn golygu y caiff hyn ei gyfeirio ar gyfer penderfyniad ym mis Mehefin 2021.

Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), caiff yr adroddiad hwn ei gyhoeddi'n electronig ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd yn www.newport.gov.uk/cy/Schools-Education/School-reorganisation/School-reorganisation.aspx

I wneud cais am gopi caled (papur) o'r ddogfen hon cysylltwch â Swyddog Datblygu a Gwybodaeth Addysg Cyngor Dinas Casnewydd trwy ffonio 01633 656656 neu e-bostio school.reorg@newport.gov.uk